# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## Medi 2020

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc

**1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi**

**David Melding AC (Cadeirydd)**
**Catriona Williams OBE, Ysgrifenyddiaeth, Plant yng Nghymru**
**Huw Irranca-Davies**
**Helen Mary Jones**

**2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

**Cyfarfod 1.**

***Dyddiad y cyfarfod***: 14 Mai 2019

***Yn bresennol:***
David Melding AC, *Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc*
Julie Morgan AC, *y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*
Jillian van Turnhout*, cyn Seneddwraig Gwyddelig*
Sally Holland, *Comisiynydd Plant Cymru*
Catriona Williams OBE, *Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru*

*Mike Greenaway – Chwarae Cymru*
*Huw Irranca Davies – Aelod o'r Cynulliad dros Ogwr*
*Andy James – Rhwydwaith Amddiffyniad Cyfartal Cymru*
*Vivienne Laing – NSPCC Cymru*
*Gethin Matthews-Jones – Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant*
*Jackie Murphy – TGP Cymru*
*Sara Reid – Rhwydwaith Amddiffyniad Cyfartal Cymru*
*Tim Ruscoe – Barnardo's Cymru*
*Catherine Thomas – Capasiti personol*
*Sarah Wiggins – Cyngor Caerdydd*
*Jonathan Wynne Evans – Prifysgol De Cymru*

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

Diben y sesiwn y sesiwn oedd trafod Bil drafft Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Cafodd y grŵp gyflwyniad ar hyn gan y Dirprwy Weinidog, Julie Morgan.

Clywodd y grŵp hefyd gan Jillian van Turnhout – cyn Seneddwraig Gwyddelig – wnaeth siarad am brofiad deddfwriaeth debyg yn Iwerddon.

Cyflwynodd Sally Holland, y Comisiynydd Plant, a Catriona Williams (Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol a Phrif Swyddog Gweithredol Plant yng Nghymru) ddatganiadau ategol yn atodol i'r drafodaeth.

Trafododd y grŵp y gwahanol gyflwyniadau.

**Cyfarfod 2.**

***Dyddiad y cyfarfod:*** **Ionawr 2020**

Trefnwyd cyfle anffurfiol i gwrdd â Jillian van Turnhout – cyn Seneddwraig Gwyddelig wnaeth lywio'r broses o ddileu deddfwriaeth cosb resymol yn Iwerddon – i ofyn cwestiynau, a dysgu o'r profiad deddfwriaethol yn Iwerddon. Roedd y cyfle hwn yn agored i bob AC ac roedd nifer dda yn bresennol.

**3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

Bu'r elusennau a'r sefydliadau canlynol yn bresennol yn y grŵp fel gwesteion / arsylwyr yn ystod y flwyddyn:

*Chwarae Cymru*
*Rhwydwaith Amddiffyniad Cyfartal Cymru*
*NSPCC Cymru*
*TGP Cymru*
*Plant yng Nghymru*
*Barnardo's Cymru*

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 25 Medi 2020

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc

### [Cadeirydd – David Melding]

### Catriona Williams OBE, Ysgrifenyddiaeth, Plant yng Nghymru

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Swyddogaeth ysgrifenyddiaeth wedi'i darparu mewn nwyddau gan Plant yng Nghymru. | Tua £200.00 o amser staff |
| **Gwasanaethau a ddarperir i'r Grŵp, er enghraifft lletygarwch** Talwyd am yr holl luniaeth gan Plant yng Nghymru | | |
| **Dyddiad:** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 14 Mai 2019 | CH&Co. Catering | **£197.28** |
| | **Cyfanswm y gost** | **£397.28** |

**Atodiad A**

# *Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc*

## *Dileu'r Amddiffyniad o Gosb Rhesymol a Rhianta Cadarnhaol*

---

14 Mai 2019; 12:30pm – 13:30pm

Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

*Noddwyd gan David Melding AC a'i drefnu gan Plant yng Nghymru*

---

**Siaradwyr**

David Melding AC, *Cadeirydd Dros Dro'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc*
Julie Morgan AC, *y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*
Jillian van Turnhout*, cyn Seneddwraig Gwyddelig*
Sally Holland, *Comisiynydd Plant Cymru*
Catriona Williams OBE, *Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru*

**Yn bresennol**

*Mike Greenaway – Chwarae Cymru*
*Huw Irranca Davies – Aelod o'r Cynulliad dros Ogwr*
*Andy James – Rhwydwaith Amddiffyniad Cyfartal Cymru*
*Vivienne Laing – NSPCC Cymru*
*Gethin Matthews-Jones – Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant*
*Jackie Murphy – TGP Cymru*
*Sara Reid – Rhwydwaith Amddiffyniad Cyfartal Cymru*
*Tim Ruscoe – Barnardo's Cymru*
*Catherine Thomas – Capasiti personol*
*Sarah Wiggins – Cyngor Caerdydd*
*Jonathan Wynne Evans – Prifysgol De Cymru*

**Croeso a Sylwadau Agoriadol** – David Melding AC

Croesawodd David Melding AC – cadeirydd dros dro'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc – bawb a oedd yn bresennol, a rhoddodd sylwadau agoriadol gan gyflwyno'r siaradwyr.

**Cyflwyniad i'r Ddeddfwriaeth Ddrafft** – Julie Morgan AC

Diolchodd Julie i David am y cyflwyniad, ac i'r grŵp am y gwahoddiad, a rhoddodd gyflwyniad i'r  Bil drafft Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

- Nod cyffredinol y Bil yw amddiffyn hawliau plant, yn benodol, Erthygl 19 o'r UNRCR – sef yr hawl i amddiffyniad rhag trais – a darparu'r un amddiffyniad i blant yng Nghymru ag i oedolion.
- Mae'r Bil yn rhoi'r neges ei bod yn annerbyniol cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yng Nghymru.
- Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod digon o gefnogaeth ar gael i rieni, felly fe gynhelir proses fapio o gefnogaeth.
- Ni ddylai'r Bil atal unrhyw agwedd ar y rôl arferol o fagu plant, dylai ond fod yn ymwneud â chosb gorfforol. Mae'n berthnasol i unrhyw un mewn rôl i*n loco parentis* hefyd, gan gynnwys lleoliadau hamdden a chrefyddol.
- Mynegwyd pryder ynghylch ystyried rhieni'n droseddwyr – ni fydd cael gwared ar yr amddiffyniad yn troseddoli rhieni, a bydd y cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer rhoi ar waith yn sicrhau y bydd yr ymgyrch gyfathrebu arfaethedig yn darparu digon o wybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch y Bil, ac yn cynnig cefnogaeth cyn iddo ddod i rym.
- Mae'r Bil wedi ymddangos gerbron sawl pwyllgor, ac ar ôl y broses hon, y gobaith yw y bydd yn cael ei drafod yn y Siambr ar ôl toriad yr haf, gan dderbyn Cydsyniad Brenhinol adeg y Nadolig, gobeithio.

Dywedodd Julie ei bod yn falch o Gymru am ymgymryd â'r gwaith hwn, a diolchodd i bawb a oedd wedi cefnogi'r gwaith dros y blynyddoedd.

**Y Ddeddfwriaeth a'r sefyllfa yn Iwerddon –** Jillian van Turnhout

Siaradodd Jillian am hanes y gyfraith gyffredin yn Iwerddon, y broses o ddeddfu a'r newid diwylliannol a ddilynodd.

- Deilliodd amddiffyniad y gyfraith gyffredin mewn dyfarniad ym 1860 oedd yn dweud y gellid defnyddio cosb resymol er mwyn 'unioni'r hyn oedd yn ddrwg yn y plentyn', o ran cyd-destun.
- Roedd tystiolaeth gadarn o fethiant Iwerddon ym maes plant oedd yn agored i niwed mewn 19 adroddiad swyddogol, ond cafwyd manylion yn adroddiad Comisiwn Rhine yn benodol ynghylch cam-drin a chreulondeb tuag at blant o ysgolion a sefydliadau diwydiannol rhwng 1930 a 2000.
- Adolygodd Jillian ddadleuon o blaid ac yn erbyn cosb gorfforol, gan nodi'n bennaf
    - nad oedd tystiolaeth i ddangos bod cosb gorfforol yn ffordd effeithiol o newid ymddygiad.
    - mae sylfaen dystiolaeth gref bod cosb gorfforol yn ddrwg o ran deilliannau plant yn y tymor hir.
    - dangosodd ymchwil o Ganada fod cyfran uchel o achosion cam-drin corfforol difrifol wedi cychwyn fel cosb gorfforol
    - roedd y pryderon ynghylch ymyrraeth y llywodraeth (creu 'gwladwriaeth faldodus') yn cael eu gorbwyso gan effeithiolrwydd ymyriadau iechyd cyhoeddus eraill, a'u newidiadau diwylliannol dilynol – er enghraifft cynnwys gwregysau diogelwch mewn ceir, a gwahardd ysmygu mewn lleoliadau cyhoeddus.
- Roedd asiantaethau gwladol yn Iwerddon yn cefnogi'r ddeddfwriaeth oherwydd ei bod yn darparu eglurder i'r heddlu a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda

theuluoedd. Yn hytrach na cheisio cael dadl foesol ynghylch a oedd cosb gorfforol yn iawn, fe wnaethant siarad â rhieni ynghylch rhianta cadarnhaol, oherwydd nad oedd cosb gorfforol yn ddewis.

**Datganiad Ategol** – Sally Holland a Catriona Williams

Diolchodd Sally i Jillian am ei diweddariad ysbrydoledig a rhoddodd ddatganiad byr i gefnogi'r ddeddfwriaeth

- Y rheswm allweddol cyntaf dros gefnogi'r ddeddfwriaeth oedd ei fod yn fater o hawliau plant. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dweud wrth y DU ar bedwar achlysur gwahanol ein bod yn torri'r UNCRC trwy beidio â darparu amddiffyniad cyfartal i Blant.
- Yr ail fater allweddol oedd ei fod yn fater iechyd cyhoeddus – mae tystiolaeth sylweddol bod cosbi plant yn gorfforol yn cynhyrchu deilliannau gwael.
- Yn drydydd, roedd y Comisiynydd Plant yn falch y gallai'r ddeddfwriaeth hon gyd-fynd â 30 mlynedd ers sefydlu'r yr UNCRC.

Nododd Catriona fod yr ymgyrch wedi bod yn rhedeg ers amser maith a bod cynnydd calonogol wedi'i wneud.

- Nododd Catriona bwysigrwydd y grŵp gweithredu i ddarparu arweiniad i rieni
- Mynegodd awydd i weld bod y Bil yn parhau i fod yn glir, fel ei fod yn darparu'r eglurder sydd ei angen ar wasanaethau a rhieni.
- Byddai canlyniadau'r astudiaeth hydredol yn Sweden – a ddechreuwyd pan gyflwynwyd eu deddfwriaeth – yn cael eu cynhyrchu cyn bo hir. Pan siaradodd Plant yng Nghymru â'r academydd o Sweden sy'n gyfrifol, nododd yn gryf ei bod yn bwysig ceisio cychwyn ar y math hwnnw o astudiaeth o ddechrau'r ddeddfwriaeth.

**Sylwadau a Thrafodaeth**

Tim Ruscoe

- Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau diddorol
- Teimlai'n falch o'r ffaith y byddai'n cael ei roi ar waith ar unwaith, ond byddai'n croesawu byrhau'r cyfnod o ddwy flynedd, er ei fod yn cyfaddef bod hynny'n annhebygol.
- Nododd fod y Bil yn glir, a dywedodd y byddai'n gas ganddo weld gwelliannau gan gynnwys dyletswydd ar wyneb y Bil i ddarparu gwybodaeth, gan obeithio gweld hynny'n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth.

Andy James

- Nododd Andy fod yr ymgynghoriad ar y Mesur ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dod i ben ar ddiwedd y busnes ar ddiwrnod y cyfarfod.
- Mae'r gwrthwynebiad i'r Bil wedi ceisio atgyfnerthu'n gyson y bydd y Bil yn troseddoli rhieni yn eu miloedd, er nad oes tystiolaeth o hynny. Nododd Andy fod angen herio

hynny pryd bynnag y bo modd, gan ei fod yn tanio'r sgwrs yn fwriadol ac yn dychryn rhieni.

Jillian van Turnhout

- Nododd ei bod yn bwysig dychwelyd i'r gwledydd a oedd eisoes wedi rhoi gwaharddiadau ar waith, a'u holi am eu profiadau – a'i bod yn hapus i siarad â chymheiriaid i ddarparu eu profiadau.

**Cloi**

Diolchodd Julie Morgan i bawb am eu cyfraniadau a'r pwyntiau pwysig a godwyd ganddyn nhw.

Gadawodd Julie a David i fynd i'r Cyfarfod Llawn, a daeth y cyfarfod hwn i ben.